

Adroddiad Blynyddol

2022/23



Gair gan ein Cadeirydd, Linda Tomos



Mae hi wedi bod yn flwyddyn gyffrous i'r Cyngor Llyfrau ac i mi'n bersonol wrth gymryd Cadeiryddiaeth Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae fy niolch yn enfawr i'r Athro M. Wynn Thomas am y

ffordd wych mae ef wedi arwain y sefydliad dros 20 mlynedd fel Cadeirydd a oedd yn cynnwys cyfnod o ad-drefnu sylweddol. Gwn, yn ogystal, fod fy nghyd-Ymddiriedolwyr yn ddyledus i Wynn am ei arweiniad ac mae'n gadael y Cyngor mewn lle cryf.

Fodd bynnag, ni fu erioed mwy o angen i'r Cyngor roi cymorth i'r diwydiant llyfrau yng Nghymru. Mae goresgyn sgileffeithiau'r Pandemig, ynghyd â'r cynnydd yng nghostau byw a'r angen i hyrwyddo'r llyfrau rhagorol sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru ar hyn o bryd, wedi bod yn heriol. Mae'r ffaith fod y Cyngor wedi cynyddu ei ddarpariaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yn deyrnged i waith caled y staff a'u partneriaethau cynhyrchiol gyda Cymru Greadigol, y cyhoeddwy, siopau llyfrau a llyfrgelloedd. Rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan y diddordeb a ddangoswyd gan Weinidogion Cymru, yn enwedig gan y Dirprwy Weinidog Dawn Bowden AS, sydd wedi bod yn hael yn ei chefnogaeth i'n gweithgareddau. Mae ei chydweithrediad â'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AS, wedi bod yn ffyniannus wrth sicrhau bod deunydd Cymraeg

wedi'i ddosbarthu'n eang i ysgolion Cymru.

Mae cymaint o uchafbwyntiau fel ei bod yn anodd cael lle digonol i sôn amdanynt i gyd, er fy mod yn gobeithio, wrth i chi ddarllen yr Adroddiad Blynnyddol hwn, y byddwch chithau fel finnau yn cael eich plesio gan ehangder y gwaith sydd wedi'i gyflawni. Fodd bynnag, gyda llwyddiant daw'r angen i atgyfnerthu ac ehangu ar allbwn cyhoeddi yng Nghymru a chyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt, efallai, yn cael eu denu ar unwaith i ddarllen, neu a allai deimlo nad yw'r llyfrau yr hoffent eu darllen ar gael. Mae gan y Cyngor Llyfrau rôl hanfodol i'w chwarae o ran darparu cyngor arbenigol, cynnal ansawdd y llyfrau a gefnogir a chysylltu llyfrau â darllenwyr, yn enwedig yn y maes digidol.

Bydd y ffordd yr ydym i gyd yn ymateb i'r cyd-destun economaidd deinamig sydd ohoni, ynghyd â'n gallu i gydweithio'n effeithiol, fel erioed, yn diffinio ein llwyddiant yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'n holl gefnogwyr, y llu o aelodau gwirfoddol o'r paneli, Cyfeillion y Cyngor Llyfrau, a'm cyd-Ymddiriedolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i'n galluogi i gyflawni mwy. Heb ymroddiad staff arbennig sy'n sicrhau bod ein gwaith yn ffynnu dan arweiniad Helgard a'n partneriaid niferus yn y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol a'r diwydiant cyhoeddi, ni fyddem wedi llwyddo i gyflawni'r allbynnau a'r canlyniadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Edrychaf ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd wrth symud ymlaen, gyda fy nymuniadau gorau i chi oll. **Linda**

Helgard Krause, y Prif Weithredwr, yn bwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ddiwethaf



Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, gellid nodi nifer o brosiectau pwysig a gyflenwyd gennym yn ystod y 12 mis hynny, ond yn ddi-os, canlyniadau dau gynllun – y Grant Cynulleidfaoedd Newydd a

#CaruDarlennYsgolion – gafodd yr effaith fwyaf ar eu priod feysydd.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl bobl greadigol ac egnïol a lwyddodd i gyflenwi dros 40 o brosiectau a gefnogwyd gan ein Grant Cynulleidfaoedd Newydd. Roedd newid hir dymor i gyflawni cynrychiolaeth deg o fewn y sector cyhoeddi yng Nghymru yn uchelgais graidd, ac yn parhau i fod. Credaf fod y cyllid ychwanegol hwn yn caniatáu i ni osod y sylfeini i wireddu'r uchelgais honno, yn enwedig gan fod ail flwyddyn o gyllid ar gyfer 2023/24 wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan Dawn Bowden, y Dirprwy Weinidog.

Roedd #CaruDarlennYsgolion – a lansiwyd gan Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ym mis Mai 2022 yn Ysgol Hamadryad, Caerdydd – yn fenter ryfeddol lle roedd pob dysgwr mewn ysgolion gwladol yng Nghymru'n cael llyfr yn anrheg. Yn ogystal, galluogwyd banciau bwyd a phrosiectau cymunedol i roi llyfrau'n anrheg i ddefnyddwyr eu gwasanaethau, a bydd ysgolion yn derbyn parseli o lyfrau – a'r cyfan er mwyn dathlu a chydabod pŵer trawsnewidiol darllen. Braf oedd gweld bod rhan fawr o'r ecosystem gyhoeddi – yn cynnwys cyhoeddwyr, llyfrwerthwyr, awduron a darlunwyr o Gymru – hefyd wedi elwa o'r buddsoddiad hwn gan Lywodraeth Cymru, a bod y tîm yn y Ganolfan Ddosbarthu wedi ymgymryd â'r her enfawr o ddosbarthu nifer anhygoel o deitlau – tua 300,000 – heb amharu mewn unrhyw fodd ar eu gwasanaethau arferol.

Roedd ein cyd-weithwyr yn yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn brysur gyda nifer o wahanol rowndiau masnachfaint a arweiniodd at dderbyn

rhai ceisiadau newydd, cynlluniau i beilota cylchgronau newydd a chynlluniau newyddion digidol ychwanegol, gan barhau i gyflenwi'r rhaglen Darllen yn Well nesaf yr un pryd.

Pleser o'r mwyaf oedd croesawu pennaeth newydd ar yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, Bethan Jones. Mae ei chefnidir ym myd addysg a chyhoeddi yn parhau i drawsnewid ein gwaith a'i wthio yn ei flaen, yn enwedig mewn perthynas â Perthyn – prosiect tair blynedd i fynd i'r afael â bylchau penodol yn y ddarpariaeth o lyfrau i blant a phobl ifanc. Ffocws ychwanegol i'r prosiect hwn yw denu talent newydd, yn enwedig yn yr iaith Gymraeg, i ysgrifennu a darlunio llyfrau ar gyfer y cynllun.

Roeddem yn falch o gefnogi CCPW gyda'u cynhadledd gyntaf yn Aberystwyth a'u cydbresenoldeb yn Ffair Llyfrau Llundain, gan roi llwyfan rhyngwladol i gyhoeddwyr o Gymru, a chyfle pwysig i arddangos cynnwys yn yr iaith Gymraeg i gynulleidfa fyd-eang.

Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus a'u hyder ynom ni fel partner allweddol sy'n cynnal un o sectorau blaenoriaeth Cymru Greadigol. Fel bob amser, rwy'n ddiolchgar i'r holl gyd-weithwyr sy'n cyfrannu at ein gwaith, ac yn gofalu nid yn unig am y pethau mawr ond hefyd am yr elfennau bach ond pwysig sy'n hanfodol ac yn tanategu ein gwaith. Rwy'n ddyledus am yr egni, y cyngor a'r amser a roddir mor hael gan ein Cadeirydd Linda Tomos, yr Is-gadeirydd Rona Aldrich a'r Trysorydd Alfred Oyekoya, yn ogystal â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y gwirfoddolwyr ar ein his-bwyllgorau a'n panelau dewis a phanelau beirniadu – mae eu harbenigedd yn cyfoethogi ein gwaith i raddau nad oes modd ei fesur. Rydym yn ymwybodol o'r rhwystrau posibl a wynebwr wrth ymuno â'n pwyllgorau, ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain lle bo'r angen, i'n galluogi ni i barhau ar ein taith tuag at gynrychiolaeth deg o'r holl gymunedau sy'n ffurfio Cymru heddiw, ac i fod yn unedig mewn un pwrpas – i wneud Cymru gyfan yn genedl o ddarlennwyr.



Creu newid parhaol

Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd enwau'r 13 a dderbyniodd gyllid yn rownd gyntaf Grant Cynulleidfaoedd Newydd, gydag ail rownd ariannu ar y gorwel, diolch i gefnogaeth Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru.

Flwyddyn yn ddiweddarach, rydym wedi dosbarthu tua £600,000 i dros 40 o brosiectau bach a mawr ledled Cymru.

Pan wnaethom wahodd ceisiadau grant yn y gwanwyn, roeddem yn chwilio am syniadau a fyddai'n gatalyddion ar gyfer newid parhaol yn y diwydiant; yn creu cyfleoedd i wella mynediad i'r diwydiant cyhoeddi a chynyddu amrywiaeth yn y sector yng Nghymru. Ar y pryd, ni allem fod wedi rhagweld yr ystod eang o fentrau y byddem yn gallu eu hariannu, na'r ffaith y byddai cymaint o bobl yn gallu elwa o gymryd rhan yn y prosiectau; i ddatblygu sgiliau, adeiladu rhwydweithiau a gweld eu geiriau mewn

print a'u profiadau bywyd yn cael eu rhannu.

Cymru & I

Dyma bartneriaeth rhwng Inclusive Journalism Cymru a Seren i gyhoeddi *Cymru & I*, detholiad clawr papur o ddeg traethawd sydd yn taflu goleuni ar y Gymru gyfoes, o bersbectif pobl a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli.

Prosiect Ysgrifennu Creadigol Lleisiau Newydd

Mae Dr Hanin Abou Salem wedi gweithio gyda deg o ffoaduriaid yng Nghymru ar raglen ysgrifennu, sydd wedi arwain at gasgliad o farddoniaeth yn archwilio'u straeon, dan y teitl *Unheard Voices*.



Y Delyn Aur

Mae Gwasg y Bwthyn yn paratoi i gyhoeddi *Y Delyn Aur* gan Malachy Edwards. Mae'r llyfr yn ddarn o waith ffeithiol greadigol lle mae Malachy yn trafod ei sefyllfa a'i deimladau fel Cymro Cymraeg o dras ethnig gymysg, sef Cymraeg, Gwyddelig a Barbadaidd.

Lucent Dreaming

Sicraodd y Grant Cynulleidfaoedd Newydd mai Lucent Dreaming yw'r cyhoeddwr cylchgronau a llyfrau creadigol cyntaf i'w ariannu yng Nghymru dan arweiniad dau awdur lliw ar gytundeb llawn-amser. Cenhadaeth Lucent Dreaming ydy cynrychioli pobl sy'n hanesyddol wedi cael eu hesgeuluso neu eu heithrio o gyhoeddi traddodiadol.

15 cylchgrawn wedi'u cefnogi

7 llyfr wedi'u cefnogi

1 prosiect yn cefnogi swydd barhaol

6 prosiect yn cefnogi swyddi dros dro

23 prosiect wedi arwain at gyfleoedd gwaith llawrydd

12 prosiect yn darparu cyfleoedd hyfforddi neu interniaeth

Caru Darllen Ysgolion

Mae cyd-ddarllen yn golygu anturio gyda'n gilydd; archwilio ein byd a'n dychymyg.

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd prosiect £4.6m Caru Darllen Ysgolion, sydd yn sicrhau bod pob plentyn mewn ysgol wladol yng Nghymru yn derbyn llyfr i'w gadw. Dyma'r prosiect mwyaf cyffrous ac uchelgeisiol o'i fath i ni ei reoli erioed, ac erbyn y gwanwyn, roedd y teitlau cyntaf o blith bron i 300,000 o lyfrau yn gadael y Ganolfan Ddosbarthu ar eu ffordd i ysgolion

ledled Cymru. Lansiwyd y rhaglen ym mis



Mai yn Ysgol Hamadryad yng Nghaerdydd, yng nghwmni Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles. Derbyniodd dysgwyr ysgolion cynradd eu llyfrau drwy'r ysgol, tra bod myfyrwyr ysgolion uwchradd yn derbyn tocynnau llyfr arbennig gwerth £7. Yng nghanolaf y rhaglen, mae pob ysgol hefyd yn derbyn detholiad o tua 50 o lyfrau ar gyfer llyfrgell yr ysgol. Roedd y prosiect yn ymdrech gydwethredol enfawr, gan gefnogi cyhoeddwy, llyfrwerthwyr ac ysgolion yng Nghymru, trwy lyfrau a anfonwyd yn uniongyrchol i ysgolion a thrwy siopau llyfrau'n datblygu partneriaethau gyda'u hysgolion lleol. Rydym wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r prosiect gyda



chwmni Ymchwil Arad a bydd y canfyddiadau'n llywio prosiectau'r dyfodol. Rhannodd personoliaethau cyfarwydd megis y cyflwynydd a'r awdur Mel Owen, a'r blogiwr Charlotte Harding eu profiadau eu hunain o ddianc i fyd llyfrau, a'r rhan bwysig sydd gan lyfrau i'w chwarae yn eu bywydau a'u teuluoedd nhw eu hunain. Ynghyd â'r artist Mace the Great a'r crëwr TikTok Ellis Lloyd Jones, maen nhw wedi rhannu eu cariad at ddarllen mewn ymgyrch i amlygu rhaglen Caru Darllen Ysgolion.

Penodi ein Cadeirydd newydd

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd penodiad ein Cadeirydd newydd, Linda Tomos CBE. Mae Linda yn llyfrgellydd siartredig gyda thros 40 mlynedd o brofiad yn y sector, a bu'n Llyfrgellydd Cenedlaethol rhwng 2015 a 2019, gan arwain y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae wedi gweithio fel uwch was sifil gyda Llywodraeth Cymru a hi oedd Cyfarwyddwr cyntaf CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru. Yn aelod o'r Orsedd,

fe'i hanrhyddedwyd â'r CBE yn Anrhyddedau Pen-blwydd y Frenhines yn 2020 am ei gwasanaeth i ddiwylliant Cymraeg. Wrth ystyried ei blwyddyn gyntaf yn y rôl, dywedodd Linda: "Mae wedi bod yn fraint cael gweithio gyda chyd-Ymddiriedolwyr, staff a chefnogwyr y Cyngor Llyfrau yn ystod blwyddyn mor brysur a chynhyrchiol. Mae'r heriau sy'n ein hwynebu i gyd yn hynod anodd; fodd bynnag, fel sefydliad, rydym wedi

estyn allan at yr awduron, cyhoeddwy, siopau llyfrau a llyfrgellwyr i weithio gyda'n gilydd i gynnal sector cryf ac amrywiol sy'n gwasanaethu Cymru a thu hwnt."



Croesawu aelodau newydd i'r tîm

Rydym wedi croesawu dau aelod newydd i'r tîm Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen eleni.

Ym mis Hydref ymunodd Bethan Jones fel Pennaeth yr Adran, o'i swydd yng nghwmni Atebol lle'r oedd hi'n Arweinydd Prosiect.

Cyn hynny, gweithiodd Bethan mewn sawl rôl wahanol ym maes addysg – athrawes, athrawes ymgynghorol i Gyngor Ceredigion ac arolygwr cymheiriaid i Estyn.

Ym mis Chwefror, croesawyd Francesca Sciarrillo fel Swyddog Hyrwyddo Darllen. Cyn ymuno â'r Cyngor Llyfrau, roedd Francesca yn aelod o banel beirniaid Cymraeg Tir na n-Og. Yn disgrifio'i hun fel llyfrbryf ac fel rhywun sydd wedi dysgu Cymraeg,

mae'n hi'n dweud bod llyfrau wedi bod yn allweddol i'w helpu hi i ddysgu'r iaith: "Yn fy marn i, un o'r ffyrdd gorau o ymgolli'ch hun yn yr iaith Gymraeg yw trwy ddarllen – ac rydyn ni mor lwcus yma yng Nghymru fod gennym gymaint o awduron a straeon anhygoel i'w rhannu efo'n gilydd a'u mwynhau."



Lleisiau newydd ar ein Panel Pobl Ifanc

Yn y gwanwyn 2023, sefydlwyd Panel Pobl Ifanc cyntaf y Cyngor

Llyfrau, gyda phenodiad naw aelod newydd rhwng 17–20 oed. Bydd y panel, a gaiff ei gadeirio gan Llŷr Titus, yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i rannu barn a syniadau ar sut i ysbrydoli eraill i ddarllen er pleser, ystyried y defnydd o gyfryngau cymdeithasol a sianelau digidol, ac yn cynnig adborth ac awgrymiadau ynglŷn â llyfrau Cymraeg a Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru.

Perthyn – yn datblygu empathi a chariad at ddarllen

Sicrhawyd cyllideb o £810,967 gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ar gyfer Perthyn, prosiect tair blynedd i greu deunydd darllen er pleser i ddarllenwyr 3–16 oed.

Y weledigaeth wrth galon y prosiect yw cyhoeddi llyfrau sy'n cynnig mewnwelediad i ddiwylliant, pobl a hanes Cymru, er mwyn helpu datblygu sgiliau empathi

allweddol a chyfrannu at lesiant emosiynol a meddyliol dysgwyr. Bydd hwn yn cefnogi pedwar nod y Cwricwlwm Newydd i Gymru.

Penodwyd panel annibynnol, ac ym mis Ionawr dewiswyd 30 teitl i'w haddasu i'r Gymraeg gan gynrychioli trawstoriad o themâu fel LGBTQ+, anabledd ac amrywiaeth ddiwylliannol. Ar ôl dewis y 30 llyfr i'w haddasu, bydd deg teitl newydd sbon

nawr yn cael eu comisiynu o Gymru, i ategu'r casgliad ac ehangu'r ystod o themâu.

Bydd pob ysgol wladol yng Nghymru yn derbyn y casgliad o 40 o lyfrau, a'r adnoddau addysgol sy'n cyd-fynd â nhw, yn rhad ac am ddim ym mis Medi 2025.



Ein blwyddyn mewn rhifau

175

o lyfrau Cymraeg wedi'u cefnogi gan grantiau



112

o lyfrau Saesneg wedi'u cefnogi gan grantiau



£610k

i gryfhau ac amrywio'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru



198

o archebion rhyngwladol wedi'u hanfon i **24** o wahanol wledydd tu allan i'r DU



337

o siopau wedi'u gwasanaethu



26,838 kWh

o drydan wedi'i gynhyrchu gan y paneli solar.



874,089

o lyfrau wedi'u hanfon allan gan y Ganolfan Ddosbarthu



63

o wirfoddolwyr ar ein Bwrdd a phaneli annibynnol – **Diolch!**



296,970

o lyfrau wedi'u hanfon i **1,285** o ysgolion cynradd fel rhan o gynllun Caru Darllen Ysgolion



53,075

o lyfrau wedi'u hanfon i **201** grwpiau cymunedol a banciau bwyd fel rhan o gynllun Caru Darllen Ysgolion



**ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023**

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Prif Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen	3–5
Crynodeb o Waith y Flwyddyn	5–7
Cyflawniad a Pherfformiad	8–9
Adolygiad Ariannol a Chynlluniau'r Dyfodol	10–11
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr	12

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	13–16
------------------------------------	-------

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	17
---------------------------------------	----

Mantolen	18
----------	----

Datganiad o'r Llif Arian	19
--------------------------	----

Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	20–38
-----------------------------------	-------

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Cyflwynna'r ymddiriedolwyr eu hadroddiad ynghyd â'r cyfrifon am y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2023. Trosglwyddwyd yr asedau a'r rhwymedigaethau o'r hen elusen i'r sefydliad newydd ar 1 Ebrill 2021.

Prif Amcanion a Gweithgareddau'r Elusen

- Cefnogi a chynorthwyo'r diwydiant llyfrau yng Nghymru drwy ddyfarnu grantiau a thrwy ddulliau eraill;
- Cefnogi, hybu a chynorthwyo cynhyrchu a dosbarthu llyfrau a deunyddiau llenyddol ac artistig eraill, ym mha ffurf bynnag y'u cofnodwyd (boed trwy ddulliau hysbys neu rai sydd hyd yma'n anhysbys), yn nwy iaith swyddogol Cymru, y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ymwneud â Chymru;
- Trefnu digwyddiadau i gefnogi hyrwyddo llyfrau, darllen a'r sector llyfrau yn ei gyfanrwydd;
- Cefnogi a hybu cyhoeddi'r cyfryw lyfrau a deunyddiau eraill yng Nghymru.

Datganiad Budd y Cyhoedd

Mae aelodau'r Pwyllgor Rheoli wedi ystyried eu dyletswydd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 ynglŷn â Budd y Cyhoedd. Maent yn fodlon bod gweithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, fel y'u disgrifir yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r meini prawf hynny. Amcan craidd Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales yw darparu budd i ddarllenwyr Cymru – yn y ddwy iaith.

Manylion Gweinyddol

Enw'r elusen	Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales
Rhif Elusen Gofrestredig	1192269
Cyfeiriad Cofrestredig	Castell Brychan Aberystwyth Ceredigion SY23 2JB
Archwilwyr	Llŷr James Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig ac Archwilwyr Cofrestredig 25 Stryd y Bont Caerfyrddin SA31 3JS
Bancwyr	HSBC plc Sgwâr Harford Llanbedr Pont Steffan Ceredigion SA48 7DU
Prif Weithredwr	Helgard Krause
Brocer Buddsoddiadau	Blackrock 12 Throgmorton Avenue London EC2N 2DL

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Ymddiriedolwyr

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, sy'n Sefydliad Corfforedig Elusennol, yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Ymddiriedolwyr a hyd at 12 o aelodau. Etholir yr Ymddiriedolwyr i wasanaethu am gyfnod o 4 blynedd yn y lle cyntaf, gydag opsiwn o ail dymor o 4 blynedd. Caiff y Cadeirydd ei ethol yn flynyddol gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yn yr haf lle mae'r aelodau'n derbyn y cyfrifon blynyddol a'r adroddiad blynyddol.

Yr Ymddiriedolwyr ar gyfer 2022/23 yw:

Yr Athro M. Wynn Thomas	Cadeirydd (tan 26/07/22)
Mrs Linda Tomos	Cadeirydd (o 27/7/22)
Mrs Rona Aldrich	Is-gadeirydd
Mr Alfred Oyekoya	Trysorydd
Yr Athro Jane Aaron	
Mrs Rajvi Glasbrook Griffiths	
Mrs Alwena Hughes Moakes	
Ms Lowri Ifor	
Yr Athro Carwyn Jones	
Yr Athro Gerwyn Williams	
Dr Caroline Owen Wintersgill	

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Cyfansoddiad

Cyfansoddiad ysgrifenedig yw offeryn llywodraethu Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales. Trosglwyddwyd Cyngor Llyfrau Cymru – The Books Council of Wales i fod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol ar 1 Ebrill 2021.

Y Cyngor a'i Bwyllgorau

Rheolir y Cyngor Llyfrau gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a benodir yn unol â'i Gyfansoddiad. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn penodi aelodau i is-bwyllgorau arbenigol sy'n adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Mae proses hysbysebu agored sydd yn deg a thryloyw, yn unol â'r arferion gorau, yn digwydd ar gyfer yr holl swyddi sydd ar gael ar y Bwrdd a'r is-bwyllgorau.

Crynodeb o Waith y Flwyddyn –

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae yna ddau brosiect – y Grant Cynulleidfaoedd Newydd a #CaruDarlennYsgolion – sy'n sefyll allan yn sgil yr effaith ddofn maent yn parhau i'w chyflenwi. Mae'r prosiect cyntaf wedi gosod y seiliau ar gyfer newid positif a hirdymor a chyflawni cynrychiolaeth deg yn ein sector ni – ac ni fyddai hyn yn bosibl heblaw am ymgysylltiad creadigol ac egniol yr holl bobl sy'n cyflenwi dros ddeugain o brosiectau mewn partneriaeth â ni a rhanddeiliaid eraill. Cafwyd cymaint o lwyddiant fel bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu cyllid ychwanegol i gynnal rownd arall yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Yn wahanol i'r cynllun hwn, a dargedwyd yn benodol, roedd #CaruDarlennYsgolion yn gynnig cyffredinol i ddysgwyr yng Nghymru; y bwriad oedd nid yn unig hyrwyddo llawenydd a gwerth darllen er pleser, ond hefyd rhoi llyfr am ddim i bob plentyn mewn ysgolion gwladol. Roeddem hefyd wedi gallu ymestyn y cynllun i gynnwys cynlluniau cymunedol megis banciau bwyd, a derbyniwyd negeseuon hynod deimladwy gan rai o'r defnyddwyr. Yn ogystal, atebodd Llywodraeth Cymru y galwadau i gefnogi'r sector mewn cydnabyddiaeth o'r argyfwng costau byw, gan ddarparu arian ychwanegol i gefnogi busnesau oedd yn wynebu costau uwch a'u galluogi i helpu eu staff eu hunain yn ariannol. Pleser o'r mwyaf oedd cefnogi Cyhoeddi Cymru – Publishing Wales wrth iddynt gynnal stondin yn Ffair Lyfrau Llundain, gan roi llwyfan yn y ffair fasnach bwysig hon i dros ugain o gyhoeddwy o Gymru.

Datblygiadau Busnes

Er gwaethaf y rhagolygon am 2022/23 a oedd, yn ansicr i'r Ganolfan Ddosbarthu yn wreiddiol, daeth ei blwyddyn i ben gyda pherfformiad rhagorol arall. Y rheswm pennaf am hyn, fodd bynnag, oedd y gwaith parhaus, fesul cam, i gyflenwi'r prosiect #CaruDarlennYsgolion, ac mae'r pryderon am iechyd cyffredinol y sector llyfrwerthwyr annibynnol yn parhau. Mae'r Ganolfan Ddosbarthu'n dal i fuddsoddi yn ei gwasanaethau, ond hefyd yn gweithredu system SMS a warws newydd a fydd yn disodli'r system hynod hen ffasiwn a osodwyd rhyw 30 mlynedd yn ôl. Ein blaenoriaeth bob amser yw cynnal ein gweithrediadau busnes heb unrhyw ymyrraeth, ac er bod hyn wedi arwain at gymryd mwy o amser nag a ddisgwyd i roi'r system ar waith, rydym yn hyderus y daw'r cyfan i fwcwl o fewn y flwyddyn ariannol nesaf. Ein gobaith yw y bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi'r Ganolfan Ddosbarthu i ennill busnes dosbarthu newydd a gwella ei safle ymhlith y cystadleuwyr.

Datblygu Cyhoeddi: Uchafbwyntiau

Bu'r deuddeg mis diwethaf yn brysur wrth ailgyflwyno'r gylchred asesu ar gyfer y rhaglenni craidd (llyfrau a chylchgronau) a roddwyd o'r neilltu dros dro yn ystod cyfnod COVID. Cyflawnwyd y rownd masnachfaint yn achos y cyhoeddwy a swyddi Saesneg yn llwyddiannus, gyda nifer o ymgeiswyr newydd yn dod yn gyhoeddwy rhaglen am y 4 blynedd nesaf. Cynhaliwyd y masnachfreintiau cylchgronau a gafodd fudd o gyllid gan Lywodraeth Cymru, ac arweiniodd hyn at gynlluniau peilot ar gyfer cylchgrawn Cymraeg ar chwaraeon a ddarperir gan Golwg, a chylchgrawn hanes poblogaidd a ddarperir gan Gwasg Carreg Gwalch, tra ar yr un pryd yn diogelu'r cylchgronau craidd. Yn dilyn

penderfyniad Newsquest i ddirwyn cwmni Corgi i ben, aethom ati i gynnal proses dendr arall, gyda'r arian oedd yn weddill yn cael ei gyflwyno i Golwg i'w ddefnyddio i wella eu cyrhaeddiad i gynulleidfaoedd newydd trwy ddatblygu eu gwasanaethau ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol cyfredol a newydd. Yn dilyn llawer o drafod, penderfynodd yr is-bwyllgor Cymraeg gynnal adolygiad buddsoddi mawr ar gyfer cyhoeddwy Cymraeg, y cyntaf o'i fath yn hanes y Cyngor Llyfrau. Roedd y dasg hon yn adlewyrchu'r broses fasnachfaint ar yr ochr Saesneg ac yn galluogi'r is-bwyllgor i gymryd agwedd mwy hirdymor a strategol, a chaniatáu i gyhoeddwy gynllunio a chyflenwi eu rhaglenni mewn modd mwy strwythuredig. Gwneir y penderfyniadau a'r cynigion terfynol yn haf 2023, gyda'r cynlluniau masnachfaint newydd yn weithredol am 4 blynedd o fis Ebrill 2024.

Dechreuodd yr Adran Llyfrau Plant weithio ar y prosiect Perthyn, a ariannwyd gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, i amrywio llyfrau i blant a phobl ifanc yn nhermau'r themâu a'r awduron sydd ynghlwm â'r gwaith. Rydym yn ddiolchgar i'r panel allanol o arbenigwyr a ddewisodd y teitlau i'w cyfieithu. Cynhelir tendr i gomisiynu teitlau gwreiddiol yn gynnar yn haf 2023. Mae cydweithwyr o'r Adran Datblygu Cyhoeddi yn cydweithio'n agor i sicrhau bod yna gymaint o gysondeb ag y bo modd i osgoi dyblygu.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn y Cyngor Llyfrau, rydym yn cydnabod bod yr anghyfartaleddau strwythurol sy'n bodoli o fewn y gymdeithas ehangach yng Nghymru hefyd yn bodoli yn ein sector ni ein hunain. Rydym wedi ymrwymo i gyflawni cynrychiolaeth deg o fewn ein sefydliad ni a'r sector llyfrau yng Nghymru, fel ei gilydd. Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, yr arweinwyr gweithredol, y rheolwyr a'r arweinwyr tîm yn deall bod sicrhau cyfleoedd yn gyfrifoldeb unigol a chyfunol, a'i fod wrth galon diwylliant ein sefydliad. Rydym wedi penodi Bwrdd Ymddiriedolwyr newydd, a chynyddu'r amrywiaeth o fewn ein hisbwyllgorau a'n panelau beirniadu, ond mae yna fwy eto i'w wneud.

Yn benodol, rydym yn ceisio mynd i'r afael â'r her o ddenu staff o gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli, gan ein bod wedi ein lleoli mewn ardal wledig o Gymru ac wedi ymrwymo i gynnal ein busnes o ddydd i ddydd drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Mae eraill yn rhannu'r heriau hyn, ac ni chânt eu datrys gennym ni yn unig. Mae angen ymdrech gyfunol dros Gymru gyfan, ac rydym yn cydweithredu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i greu atebion fydd yn arwain at newid real a pharhaol. Fel prif gefnogwyr a chyllidwyr y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldeb dros yr effaith a gawn ar y bobl rydym yn eu cefnogi, ein partneriaid, ein gweithwyr, a'r gymdeithas ehangach. Mae ystyriaethau ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ganolog i'r holl benderfyniadau ariannol a gymerir gennym i helpu partneriaid i gyflenwi newid cadarnhaol a sicrhau cynrychiolaeth deg yn y cynnwys rydym yn ei ariannu. Rydym yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Materion Corfforaethol

Croesawyd Pennaeth newydd i'r Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, sef Bethan Jones, sydd wedi bwrw ati'n egnïol i adolygu'r lluo o brosiectau a gyflenwir gan ei thîm bychan. Rydym eisoes wedi gweld gwerth nifer o'r addasiadau bach a wnaed, ac edrychwn ymlaen at weld rhagor o ddatblygiadau yn y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein staff trwy gynnig cyfleoedd cyson am hyfforddiant, gan gyfuno hyfforddiant ar-lein a mewnol ar bynciau'n amrywio o sgiliau busnes, iechyd a diogelwch a rheoli pobl, i iechyd meddwl yn y gweithle, ac ymwybyddiaeth o'r menopos.

Comisiynwyd arolwg i ymchwilio sut y gallem wneud ein hadeiladau'n fwy effeithiol o ran y defnydd o ynni, a gweithio tuag at gadwyn gyflenwi ac amgylchedd waith sy'n garbon niwtral. Oherwydd oedran y ddau adeilad mae'n debygol y bydd angen am fuddsoddiad sylweddol, a byddwn yn trafod yr opsiynau gyda Llywodraeth Cymru.

Cyflawniad a Pherfformiad

TARGEDAU ALLWEDDOL 2022/23		
	2022/23 Targed	2022/23 Cyflawni
Teipysgrifau – Adran Olygyddol	170	128
Nifer y teitlau a gynorthwywyd gan yr Adran Ddylunio	110	90
Gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu	£3m gros £2m net	£6.55m gros £4.37m net
Lefel dyledwyr y Ganolfan	Dim mwy na 2%	1%
Gwales: targedau ar gyfer gwerthiant ar-lein	£75,000	£93,896

TARGEDAU ALLWEDDOL 2022/23 – GRANTIAU CYHOEDDI		
	2022/23 Targed	2022/23 Cyflawni
Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)		
Nifer y teitlau a gyhoeddir	175	175
Cyfartaledd gwerthiant	800 ar ôl 18 mis	912
Cyfanswm y cylchgronau Cymraeg	16	16
Cyhoeddi prydlon yn unol â'r amserlen	98%	95%
Grantiau Cyhoeddi (Saesneg)		
Nifer y teitlau Grant Llenyddiaeth a gyhoeddir	75	29
Nifer y teitlau blaendal awdur a gyhoeddir	15	25
Grantiau Marchnata	20	24
Nifer y cylchgronau llenyddol	6	6
Cyfartaledd gwerthiant cylchgronau llenyddol	Cyffredinol – 1,000 Aml-ffocws – 300 Ffocws unigol – 400	Cyffredinol – 1,000 Aml-ffocws – 300 Ffocws unigol – 400
Cyhoeddi rheolaidd yn unol â'r amserlen	98%	98%

Adolygiad Ariannol

Derbyniwyd cyfanswm o £10.4m o incwm yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â £13.4m yn 2021/22. Roedd y gostyngiad yn bennaf oherwydd y prosiect mawr Caru Darllen (£4.6m) yn y flwyddyn flaenorol, y mae'r rhan fwyaf ohono wedi ei wario erbyn hyn.

Roedd incwm y Ganolfan Ddosbarthu wedi elwa o werthiant Caru Darllen sydd wedi bod o gymorth o ran cynyddu'r elw gros. Mae prosiectau mawr wedi helpu i fanteisio ar y capasiti staff sydd ar gael, ond gyda'r cyllid yn sefyll yn ei unfan, ychydig iawn o gapasiti sydd i amsugno gweinyddiaeth prosiect i'r sefyllfa staffio bresennol yn y dyfodol.

O'r gwariant o £10m (o'i gymharu â £12.3m yn 2021/22), mae'r driniaeth o gyfalafu gwariant ar y system newydd sy'n gyfrifol i raddau helaeth am y gwarged o £396,857 (o'i gymharu â gwarged net o £1,078,619 yn 2021/22).

Gostwng oedd hanes buddsoddiadau'r Cyngor £185K (£193.5k am yr un cyfnod yn 2022) a buddsoddiadau'r Cynllun Pensiwn ond gyda chyfraddau llog yn gwella, efallai y bydd angen edrych ar ddulliau eraill o gynhyrchu incwm o'r cyfalaf.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd yr asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) yn £3.9m (2021/22: £710k). Mae'r cynnydd i'w briodoli i amseru gwariant y cynllun cyfalaf a gaiff ei wario dros y 2 flynedd nesaf.

Polisi Arian Wrth Gefn

Lluniwyd y Polisi Arian Wrth Gefn i sicrhau bod gan y Cyngor gyllid digonol i gwrdd ag unrhyw ofynion gwariant cyfalaf annisgwyl, a hefyd i ddelio â'r elfen o risg sydd ynghlwm â rhedeg Canolfan Ddosbarthu nad yw'n derbyn arian o'r pwrs cyhoeddus. Mae'r Cyngor yn cadw'r cronfeydd ariannol hyn mewn nifer o gategoriâu:

Cronfeydd Anghyfyngedig

- Cronfeydd Cyfalaf – £500,000 i gwrdd â chost hanesyddol yr adeiladau a gwariant cyfalaf annisgwyl. Byddwn yn cynnal archwiliad o'r adeiladau dros y flwyddyn nesaf, gan flaenoriaethu lle mae angen gwariant pellach o'r gronfa yma.
- Cronfeydd Refeniw
 - Pensiwn: Ar 31 Mawrth 2023, roedd gweddill o £2,484,000 (2021/2022: diffyg £2,583,000). Mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu peidio â nodi hwn fel ased ar y fantolen, ond mae naratif llawn wedi'i ddarparu ar nodyn 22. Mae cyfraniadau'r cyflogwr wedi'u cytuno gyda Chronfa Bensiwn Dyfed tan 31 Mawrth 2027.
 - Y Cyngor: Cronfa gadw heb fod yn fwy na 4% o'r grant blynyddol (a fyddai'n golygu £150,400 yn 2022/23). Mae'r gronfa wedi cynyddu eleni i £150,918, o ganlyniad i swyddi gwag yn y tymor byr.
 - Y Ganolfan Ddosbarthu: Targed o gronfa ddigonol i dalu gorbenion am 6 mis (ac eithrio disgownt) (£328,264 ar sail ffigurau 2022/23). Maint y gronfa eleni yw £457,373, sydd ychydig yn uwch na'r targed oherwydd arian dros ben o gynllun Caru Darllen.

Cronfeydd Penodol

Wrth i ddatblygiadau system newydd gael ei chyfalafu, mae cronfa o £1,471,576 sy'n cyfateb i'r buddsoddiad o £690,109 mewn systemau newydd a gyflawnwyd hyd yma. Bydd dibrisiant yn digwydd i'r system newydd pan fydd yn mynd yn fyw.

Cronfeydd Cyfyngedig

Mae'r cronfeydd yma ar gyfer y defnydd a nodir yn nodyn 20 yn unig.

Prif Noddwyr

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Cymru Greadigol a Llywodraeth Cymru am ddarparu cyfran helaeth o arian y Cyngor Llyfrau; heb y gefnogaeth hon, ni fyddai modd i'r Cyngor gyflawni ei waith.

Polisi Buddsoddiadau

Yn unol â'r Cyfansoddiad, mae gan ymddiriedolwyr yr elusen y pŵer i fuddsoddi pan maent yn credu bod buddsoddiad yn briodol. Mae asedau'r elusen ar gael ac yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion yn y dyfodol rhagweladwy.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad gwirfoddolwyr sydd yn gweithio'n ddi-dâl ar amrywiol banelau a chynlluniau'r Cyngor. Gan na allwn roi gwerth ariannol ar yr holl waith yma, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

Trafodion Partïon Cysylltiol

Mae staff ac ymddiriedolwyr yn datgan unrhyw fuddiannau yn flynyddol ac fel y maent yn codi. Mae trafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023 gan yr ymddiriedolwyr, ac fe'u gwelir yn nodyn 26 ar y fantolen ariannol.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor wedi ystyried ac adolygu pob risg a allai effeithio ar yr elusen. Roedd y broses hon yn cwmpasu nid yn unig y sefyllfa ariannol, ond hefyd ystyriaethau strategol ac amgylchiadol. Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod systemau wedi'u sefydlu i wrthsefyll pob risg o'r mathau y tynnwyd sylw atynt fel rhan o'r broses hon.

Rhagdybiaeth Busnes Hyfyw

Mae gan yr ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol fod gan y Cyngor adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae'n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar y sail ei fod yn fusnes hyfyw.

Polisi Cyfle Cyfartal

Mae'r Cyngor Llyfrau yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan-amser neu lawn-amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, nac unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaeth mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored, ac mae penodiadau'n ddibynnol ar deilyngdod.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR:

Yr Ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r cyfrifon ariannol yn unol â deddfwriaeth gymwys ac Ymarferion Cyfrifyddol Cyffredinol Derbyniol y Deyrnas Unedig.

Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol a fydd yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Elusen yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn yr adroddiad 'Datganiadau o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau' (SORP);
- dyfarnu ac amcangyfrif yn rhesymol ac yn ddoeth; datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a gaiff eu hegluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail y bydd yr Elusen yn parhau i weithredu os nad yw'n amhriodol i dybio hynny.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol addas sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr Elusen yn gymharol gywir ar unrhyw adeg, a hefyd yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn unol â *Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008*. Mae ganddynt hefyd gyfrifoldeb i warchod asedau'r Elusen ac yna i gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll neu unrhyw afreoleidd-dra arall.

Yn ôl dealltwriaeth yr Ymddiriedolwyr:

- nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol ohoni;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadwy berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr Elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ofal a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei chynnwys ar safle we'r Elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli, paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodau eraill.

ARCHWILWYR

Yn y Cyfarfod Blynnyddol, cynigir ailbenodi'r archwilwyr, Llŷr James.

Cymeradwywyd adroddiad yr Ymddiriedolwyr, a'r cyfrifon blynnyddol, ar 24 Gorffennaf 2023.

..... Mrs Linda Tomos

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Llyfrau Cymru (yr 'elusen') am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2023, sef y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen yn ogystal â'r nodiadau perthnasol, yn cynnwys crynodeb o'r polisiâu cyfrifo perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â'r polisiâu cyfrifo sydd yn y nodiadau a gofynion Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Yr Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), yn cynnwys Safon ar Adroddiadau Ariannol 102, 'Y Safon ar Adroddiadau Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon'.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr elusen ar 31 Mawrth 2023 ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac a wariwyd ganddi am y flwyddyn yn diweddu ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi yn unol â'r Arferion Cyfrifo Cydnabyddedig yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

Sail ein barn

Cynhaliwyd yr archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar archwilio (y Deyrnas Unedig) (SRhA-DU) a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny wedi eu disgrifio dan Gyfrifoldebau'r Archwiliwr sy'n rhan o'r adroddiad hwn. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor ar Adroddiadau Ariannol ('FRC'), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom yn ddigonol ac yn briodol fel sail i'n barn.

Casgliadau yn ymwneud â hyfywdra

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod yr ymddiriedolwyr yn gywir wrth baratoir datganiadau ariannol ar y sail bod yr elusen yn hyfyw.

Ar sail y gwaith a wnaethpwyd gennym, nid ydym wedi darganfod unrhyw ansicrwydd sylweddol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw unrhyw amheuaeth ar allu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw am gyfnod nid llai na deuddeng mis o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â hyfywdra wedi eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr hyn sydd yn yr Adroddiad Blyneddol heblaw'r datganiadau ariannol eu hunain ac adroddiad yr archwilwyr ar y datganiadau hynny. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth arall ac oni bai ein bod yn datgan yn wahanol, nid ydym yn datgan unrhyw farn arni.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023 (PARHAD)

Fel rhan o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu ag unrhyw fanylion sy'n deillio o'r gwaith archwilio. Os ydym yn dod ar draws unrhyw anghysonderau sylweddol, mae angen i ni benderfynu a oes unrhyw beth naill ai yn y datganiadau ariannol neu'r wybodaeth arall yn gamarweiniol. Os, ar sail ein gwaith, rydym o'r farn bod unrhyw ddatganiad yn gamarweiniol, mae'n ofynnol i ni ddatgan hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Ein barn ni ar faterion eraill yn unol â Deddf Elusennau 2011

Yn ein barn ni, yn seiliedig ar y gwaith yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod yr archwiliad:

- mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r hyn sydd yn y datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiad blynyddol ac adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion sydd angen adroddiad drwy eithriad

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi darganfod unrhyw anghysonderau sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw sylw ar y materion canlynol y mae Ddeddf Elusennau 2011 yn mynnu ein bod yn eich hysbysu yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- nad oedd cofnodion cyfrifo digonol wedi eu cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo; neu
- nad yw rhai manylion ynglŷn â thâl yr ymddiriedolwyr wedi eu datgelu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n angenrheidiol i'r archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, nhw sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am y rheolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn ei hystyried yn ddigonol i baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o anghysonderau yn deillio naill ai o dwyll neu o gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau i weithredu gan ddatgelu, os yw'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyfywdra'r elusen oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r elusen neu ddod â'r gweithgareddau i ben, neu nad oes dewis ganddynt ond gwneud hynny.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023 (PARHAD)

Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilwyr dan Ddeddf Elusennau 2011 (adran 144) ac rydym yn adrodd yn unol â rheoleiddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno. Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw ddatganiadau sy'n gamarweiniol, yn deillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad, a pharatoi adroddiad sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi ei gynnal yn unol â SRhA (DU) bob amser yn canfod camgymeriadau sylweddol. Gall camgymeriadau ddeillio naill ai o dwyll neu gamgymeriad, ac ystyrir camgymeriadau felly yn sylweddol os, yn unigol neu fel cyfanswm, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll, yn enghraifft o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio dulliau gweithredu yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddadlennu camddatganiadau sylweddol o ran afreoleidd-dra, yn cynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae'n dulliau gweithredu yn ein galluogi i ddadlennu afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r diwydiant, nodwyd bod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yn ymwneud â thorri egwyddorion rheoleiddiol y Deyrnas Unedig, fel y rheiny a reolir gan y Comisiwn Elusennau, ac ystyriwyd i ba raddau y byddai peidio â chydymffurfio yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Ystyriwyd hefyd y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, megis Deddf Elusennau 2011. Aseswyd cymhellion a chyfleoedd o ran camddefnydd twyllodrus o'r datganiadau ariannol gan y tîm rheoli (gan gynnwys y risg o fynd y tu hwnt i reolaeth ariannol), a phenderfynwyd bod y prif risgiau yn gysylltiedig â throsglwyddo'r asedau a'r dyledion o'r Elusen i'r Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd ac amseru cydnabyddiaeth o incwm a gwariant grant i ystumio perfformiad ariannol. Mae'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr archwiliad yn cynnwys:

- Trafodaethau gyda'r tîm rheoli, yn cynnwys rhoi ystyriaeth i beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a thwyll;
- Adolygu gohebiaeth allweddol gyda'r Comisiwn Elusennau yn ymwneud â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- Adolygu cofnodion perthnasol cyfarfodydd y Bwrdd;
- Dethol sampl o drafodion a'u holrhain yn ôl i'r dogfennau perthnasol er mwyn cadarnhau eu bod yn drafodion busnes *bona fide*; a
- Dethol sampl o incwm grantiau a'i olrhain yn ôl er mwyn sicrhau bod y gwariant perthnasol wedi ei gynnwys yn yr un cyfnod ariannu;
- Sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer nodi'r driniaeth gywir o incwm fel y'i cyfyngir neu a ddynodwyd yn cael eu gweithredu'n gywir ar gyfer unrhyw gyllid newydd;
- Adolygu prisiad y gronfa bensiwn, gan sicrhau bod y driniaeth yn unol ag FRS 102 adran 28.22 ynghylch cydnabod ased cynllun buddion diffiniedig; a
- Llunio dulliau archwilio i ymgorffori cydnabyddiaeth o'r hyn sy'n anrhagweladwy ynghylch natur, amseru neu hyd a lled ein profion.

Mae cyfyngiadau anorfod yn rhan gynhenid o'r dulliau archwilio a ddisgrifir uchod. Rydym yn llai tebygol o ddod yn ymwybodol o enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau pan nad oes cysylltiad agos rhyngddynt hwy a digwyddiadau a thrafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR CYNGOR LLYFRAU CYMRU AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023 (PARHAD)

Fel rhan o'r archwiliad, yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) rydym yn arfer barn broffesiynol ac yn cynnal sgeptigiaeth broffesiynol trwy gydol yr archwiliad. Rydym hefyd yn:

- Adnabod ac asesu'r risg o gamddatgan sylweddol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad; llunio a gweithredu dulliau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a sicrhau tystiolaeth archwilio sydd yn ddigonol ac yn addas i seilio ein barn arni. Mae'r risg o beidio â dod o hyd i achos o gamddatgan tystiolaeth oherwydd twyll yn uwch nag un sy'n deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor deunydd yn fwriadol, camliwio, neu fynd y tu hwnt i reolaeth fewnol.
- Sicrhau dealltwriaeth o reolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn llunio dulliau archwilio sy'n addas i'r amgylchiadau, ond nid i bwrpas lleisio barn ar effeithiolrwydd y rheolaeth fewnol.
- Gwerthuso addasrwydd y polisiau cyfrifo a ddefnyddiwyd, ynghyd â rhesymoldeb cyfrifon a amcangyfrifir a datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan yr ymddiriedolwyr.
- Cadarnhau ei bod yn briodol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar y sail fod yr elusen yn hyfyw, ac, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, a oes ansicrwydd sylweddol ai peidio mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a allai greu amheuaeth arwyddocaol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel elusen hyfyw. Os penderfynwn fod ansicrwydd sylweddol yn bodoli, mae'n rhaid i ni dynnu sylw yn adroddiad yr archwilwyr at y datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu, os yw'r datgeliadau'n annigonol, rhaid i ni addasu ein barn. Seilir ein casgliadau ar dystiolaeth yr archwiliad hyd at ddyddiad adroddiad yr archwilwyr. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amgylchiadau yn y dyfodol achosi i'r elusen ddirwyn i ben fel elusen hyfyw.
- Gwerthuso holl gyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion ariannol a'r digwyddiadau sylfaenol mewn modd sy'n gyflwyniad teg.

Rydym yn cyfathrebu â'r sawl sy'n gyfrifol am reoli ynghylch, ymysg materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau sylweddol a wneir ganddo, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol yn y rheolaeth fewnol a nodwyd yn ystod ein harchwiliad.

Defnydd o'n hadroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Deddf Elusennau 2011. Ymgwymerwyd â'r gwaith archwilio fel bod modd i ni ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan yn adroddiad yr archwilwyr, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw un ond yr elusen ac aelodau'r elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am unrhyw farn a ffurfiwyd gennym.

.....

DYDDIAD:

BETHAN VAUGHAN

Prif Archwiliwr Statudol

Ar gyfer ac ar ran

LLŶR JAMES Cyf.

Archwilwyr Statudol

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Penodol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2023 £	Cyfanswm 2022 £
Incwm drwy weithgareddau elusennol						
Grantiau Llywodraeth Cymru	3	1,129,278	557,000	4,001,889	5,688,167	9,976,853
Grantiau Eraill	4	–	–	146,421	146,421	56,500
Incwm o Adrannau	5	197,133	–	2,678	199,811	150,044
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	9	4,373,598	–	–	4,373,598	3,240,447
Buddsoddiadau	5	–	–	4,948	4,948	4,704
Cyfanswm yr adnoddau a dderbynnir		5,700,009	557,000	4,155,936	10,412,945	13,428,548
Adnoddau a wariwyd						
Gweithgareddau elusennol						
Grantiau wedi eu dosbarthu	6/7	–	–	2,600,722	2,600,722	2,600,722
Prosiectau penodol		–	–	1,253,388	1,253,388	4,708,796
Gwariant elusennol	8	1,607,387	55,571	323,061	1,986,019	1,818,434
Gweithgareddau masnachol eraill						
Canolfan Ddosbarthu	9	4,169,369	6,590	–	4,175,959	3,221,977
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd		5,776,756	62,161	4,177,171	10,016,088	12,349,929
Adnoddau net a dderbynnir cyn trosglwyddiadau		(76,747)	494,839	(21,235)	396,857	1,078,619
Enillion / (Colledion) cydnabyddedig eraill						
Ennill / (Colled) gwirioneddol ar y cynllun buddiannau pendant	22	2,861,000	–	–	2,861,000	1,105,000
Symudiad ar y buddsoddiadau	14	–	–	(8,150)	(8,150)	3,891
Trosglwyddiad rhwng cronfeydd		21,430	–	(21,430)	–	–
		2,882,430	–	(29,580)	2,852,850	1,108,891
Symudiadau net yn y cronfeydd		2,805,683	494,839	(50,815)	3,249,707	2,187,510
Balansau a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2022		(1,697,392)	976,737	1,431,259	710,604	(1,476,906)
Balansau a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023		1,108,291	1,471,576	1,380,444	3,960,311	710,604

Ni pharatowyd datganiad ar wahân o incwm a gwariant.

Mae Ymddiriedolwyr yr Elusen yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod y gronfa bensiwn wedi dylanwadu ar y ffigurau ariannol terfynol. Maent yn awyddus i nodi bod sefyllfa Cronfa Bensiwn Dyfed y tu hwnt i reolaeth yr elusen.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 20 i 38 yn ffurfio rhan gyflawn o'r cyfrifon hyn.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

MANTOLEN ARIANNOL AR 31 MAWRTH 2023

	Nodyn	2023		2022	
		£	£	£	£
Asedau sefydlog					
Eiddo parhaol	13	988,173		629,550	
Buddsoddiadau	14	185,374		193,524	
		<u>1,173,547</u>		<u>823,074</u>	
Asedau cyfredol					
Dyledwyr	15	499,889		5,704,895	
Stoc y Ganolfan Ddosbarthu		242,384		206,451	
Arian yn y banc ac mewn llaw	16	4,545,760		1,215,797	
		<u>5,288,033</u>		<u>7,127,143</u>	
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	17	2,501,269		4,656,613	
Asedau cyfredol net					
		<u>2,786,764</u>		<u>2,470,530</u>	
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		3,960,311		3,293,604	
Cronfa Bensiwn	22		–	(2,583,000)	
		<u>3,960,311</u>		<u>710,604</u>	
Cronfeydd					
Anghyfyngedig	18	1,108,291		885,608	
Cronfa Bensiwn	22	–		(2,583,000)	
Anghyfyngedig yn dilyn addasiad pensiwn	18	1,108,291		(1,697,392)	
Penodol	19	1,471,576		976,737	
Cyfyngedig	20	1,380,444		1,431,259	
		<u>3,960,311</u>		<u>710,604</u>	

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr a Phrif Weithredwr y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2023 a llofnodwyd ar eu rhan gan y canlynol:

LINDA TOMOS Cadeirydd

ALFRED OYEKOYA Trysorydd

HELGARD KRAUSE Prif Weithredwr

CYNGOR LLYFRAU CYMRU**LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2023**

	Nodyn	2023 £	2022 £
<i>Llif arian yn deillio o weithgareddau gweithredu</i>			
Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu	24	3,329,963	(361,599)
Arian ar ddechrau'r flwyddyn		1,215,797	1,577,396
Arian ar ddiwedd y flwyddyn	24	<u>4,545,760</u>	<u>1,215,797</u>

1. Polisiâu Cyfrifo

Nodir isod y prif bolisiâu cyfrifo a fabwysiadwyd, a'r dyfarniadau a'r ffynonellau allweddol o amcangyfrif ansicrwydd a ddilynwyd, wrth baratoi'r datganiadau ariannol:

a. Sail y paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn effeithiol o 1 Ionawr 2015) – (Elusennau SORP (FRS 102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod yn wreiddiol yn ôl y gost hanesyddol neu werth y trafodiad, oni nodir yn wahanol yn y nodyn/nodiadau polisi cyfrifo perthnasol.

b. Stoc

Dangosir y stoc ar yr isaf o'r gost neu'r pris gwerthadwy net. Cyfrifir cost ar sail gwerth pryniant. Seilir gwerth masnachol ar amcan o bris gwerthu llai'r amcan o'r gost gwaredu.

c. Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol

Ar y fantolen, mae gan Gyngor Llyfrau Cymru falans dros ben ar y Fantolen. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn fod yr Elusen, ar y sail yma, yn fusnes gweithredol.

Paratowyd y cyfrifon ar sail y rhagdybiaeth fod yr elusen yn gallu parhau i weithredu fel busnes hyfyw, rhywbeth y mae'r ymddiriedolwyr yn ei ystyried yn briodol.

ch. Costau pensiwn

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithredu pensiwn â buddion wedi'u diffinio o fewn Cronfa Bensiwn Dyfed. Gyda mabwysiadu FRS 102 ym mis Ebrill 2014, dangosir yr atebolrwydd hwn yn llawn ar y Fantolen. Caiff yr addasiadau i'r datganiadau ariannol yn dilyn yr addasiad hwn eu dangos yn nodyn 18, gyda'r diffyg pensiwn llawn yn cael ei ddangos yn nodyn 22.

d. Buddsoddiadau

Cofnodir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad.

dd. Asedau sefydlog

Nodwyd asedau sefydlog gwirioneddol ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig. Darperir ar gyfer dibrisiant yn ôl cyfraddau a amcangyfrifwyd i ddileu'r gost yn gyson dros y cyfnod y disgwylir i'r ased wasanaethu'n ddefnyddiol, llai yr amcangyfrif o'r gwerth terfynol, fel a ganlyn:

- Cyfrifiaduron ac offer eraill – dros 5 mlynedd (ar ôl cwblhau)
- Darnau gosod a gosodiadau – dros 5 mlynedd
- Cerbydau modur – 5 mlynedd

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

Nid oes gostyngiad yng ngwerth y tir a'r adeiladau rhydd-ddaliad, gan fod y gwerth gweddilliol yn uwch na'r gwerth ar y Fantolen.

e. **Grantiau sy'n daladwy**

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo goblygiad cytundebol yn bodoli, er gwaethaf y ffaith y gallant gael eu talu mewn cyfnodau eraill yn y dyfodol.

f. **Adnoddau a dderbynnir**

Caiff adnoddau a dderbynnir eu cynnwys yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol pan fo gan yr Elusen hawl i'r incwm, ac y gellir mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r polisiau penodol isod yn berthnasol i wahanol gategoriau o incwm:

- Grantiau: rhoddir cyfrif am y rhain pan fyddant yn gysylltiedig â pherfformiad ac amcanion penodol, gan fod yr Elusen yn ennill yr hawl i gael ei hystyried yn ôl ei pherfformiad. Pan dderbynnir incwm cyn iddo gael ei gydnabod, caiff ei ddal yn ôl a'i gynnwys gyda chredydwyd. Lle bo hawl yn digwydd cyn y derbynnir yr incwm, caiff yr incwm ei gronni. Cyfrifir grantiau cyfalaf fel incwm cyn gynted ag y bydd modd eu derbyn.
- Incwm Masnachu: bydd incwm a godir trwy weithredu'r Ganolfan Ddosbarthu dan reolaeth yr Elusen yn cael ei gymryd i ystyriaeth pan fo ymrwymiad cytundebol yn bodoli.
- Cymynroddion: hawl yw'r cyntaf o ddau beth – naill ai bod yr Elusen yn cael ei hysbysu o ddosraniad a fydd yn digwydd yn fuan, neu bod y gymynrodd yn cael ei derbyn.

ff. **Treth**

O ganlyniad i'w statws elusennol, nid oes angen i'r Elusen dalu treth gorfforaeth.

2. Datganiad o Symudiadau Ariannol

Y gwarged am y flwyddyn ar ôl tynnu'r canlynol:

	2023	2022
	£	£
Costau banc	10,415	8,524
Ffi'r Archwilwyr	7,800	7,800
Dibrisiant	30,907	30,907

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

3. Grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru

	2023	2022
	£	£
Cymru Greadigol		
Grant craidd	1,129,278	1,129,277
Grantiau Cyhoeddi i'w dosbarthu	2,600,722	2,600,723
Grant cyfalaf	557,000	180,000
Grant Cynulleidfaoedd Newydd	400,000	610,000
Cronfa Costau Byw	500,000	—
Cyllid ar gyfer Ffair Lyfrau Llundain	80,000	—
Cyllid ychwanegol ar gyfer cylchgronau	135,000	—
Adran y Gymraeg mewn Addysg		
Prosiect llyfrau i ysgolion	—	510,500
Cyllido catalog	—	4,999
Prosiect E-lyfrau	—	30,000
Prosiect Iaith Arwyddo (BSL)	—	4,000
Prosiect Perthyn	17,280	—
Adran Addysg		
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	140,000	140,000
Cynllun Caru Darllen	—	4,679,831
Is-adran Diwylliant		
Cynllun Darllen yn Well	24,963	67,524
Cynllun Hyrwyddo Darllen	49,893	20,000
Cynllun Cwpan y Byd (Tîm Cymru 22)	54,031	—
	5,688,167	9,976,853

4. Grantiau Eraill

	2023	2022
	£	£
Cyngor Sir Ceredigion	—	2,500
Gŵyl Ddarllen Cheltenham	1,500	1,500
CILIP Cymru Wales	—	5,000
The Reading Agency	144,921	47,500
	146,421	56,500

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

5. Incwm – Adrannau Eraill a Buddsoddiadau

	2023	2022
	£	£
Cronfeydd anghyfyngedig		
Golygu	17,774	18,010
Dylunio	13,456	19,075
Cyfathrebu a Marchnata	87,810	21,770
Gwerthu a Gwybodaeth	53,956	63,859
Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	3,000	
Incwm Buddsoddiadau	4,948	
	7,948	7,705
Incwm amrywiol	21,137	18,829
Cronfeydd cyfyngedig		
Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen	2,678	5,500
	204,759	154,748

6. Gwariant – Grantiau Cyhoeddi

	Nodyn	2023	2022
		£	£
<u>Cymraeg</u>			
Grantiau tuag at lyfrau	7a	438,048	455,012
Grantiau awduron a darlunwyr		367,718	367,410
Cynllun penodiadau a hyfforddiant	7b	218,851	214,348
Grantiau tuag at gylchgronau	7c	388,875	400,248
Arian i'r wasg Gymraeg	7ch	217,145	202,820
Grantiau tuag at farchnata		35,360	30,244
Partneriaethau ac ymchwil		1,550	7,844
Grantiau i lyfrwerthwyr		27,503	24,125
Grantiau i greu e-lyfrau		–	1,500
<u>Saesneg</u>			
Grantiau tuag at lyfrau	7d	266,924	248,606
Grantiau tuag at gylchgronau	7dd	147,900	204,125
Grantiau tuag at farchnata		88,529	46,484
Cynllun penodiadau	7e	108,500	81,375
Grantiau i Awduron		82,357	79,117
Y Clasuron		1,450	1,500
Hyfforddiant		–	5,480
Cyhoeddi Cymru Publishing Wales		3,000	3,090
Costau gweinyddol		206,012	197,137
Cyfanswm Grantiau Cyhoeddi		2,600,722	2,600,722

Nid yw'r uchod yn cynnwys grantiau cyfyngedig untro (Cronfa Cynulleidfaoedd Newydd a Grant Costau Byw) a ddosbarthwyd i'r cyhoeddwyd sydd wedi'u cynnwys yn nodyn 20 ar y datganiad ariannol.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7. Grant fesul cyhoeddwr

7a. Cyhoeddwy'r Cymraeg – Grantiau i lyfrau	2023	2022
	£	£
Y Lolfa	127,283	126,163
Gwasg Carreg Gwalch	107,416	106,089
Rily	47,600	49,000
Gwasg y Dref Wen	45,400	43,520
Atebol	38,050	29,985
Cyhoeddiadau Barddas	29,500	27,300
Gwasg y Bwthyn	12,390	31,085
Llyfrau Broga	5,885	12,650
Dalen Llyfrau	5,500	8,790
Cyhoeddiadau'r Gair	5,100	7,700
Graffeg	3,774	5,580
O'r Pedwar Gwynt	3,000	–
Firefly	2,980	–
Gwasg Prifysgol Cymru	1,500	–
Honno	1,310	1,370
Cyhoeddiadau Modern	860	1,750
Dalen Newydd	–	1,370
Arachne Press	–	2,660
Cost gwerthuso	500	–
	438,048	455,012

7b. Cyhoeddwy'r Cymraeg – Cynllun Penodiadau	2023	2022
	£	£
Y Lolfa	80,284	80,284
Gwasg Carreg Gwalch	42,204	42,204
Rily	26,832	26,832
Gwasg y Bwthyn	24,480	24,480
Cyhoeddiadau Barddas	15,180	15,180
Atebol	15,116	15,116
Cyhoeddiadau'r Gair	6,752	6,752
Hyfforddiant	8,003	3,500
	218,851	214,348

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7c. Cyhoeddwy'r Cymraeg – Cylchgronau a gefnogwyd

	2023	2022
	£	£
Barn	69,000	100,000
Golwg	79,000	77,000
O'r Pedwar Gwynt	36,750	34,000
Cip	39,000	34,000
Wcw	30,750	30,000
Y Cymro	26,900	24,000
Barddas	21,000	20,000
Lysh	21,750	18,998
Lingo Newydd	22,500	18,000
Cara	11,250	10,000
Y Selar	11,250	11,000
Y Wawr	6,000	8,000
Llafar Gwlad	5,250	8,750
Y Traethodydd	4,000	3,000
Cristion	2,000	2,000
Fferm a Thyddyn	1,125	1,500
Costau'r panel asesu	1,350	–
	388,875	400,248

7ch. Cyhoeddwy'r Cymraeg – Cylchgronau a gefnogwyd

	2023	2022
	£	£
Golwg	150,000	200,000
Newsquest	66,145	–
Costau panel	1,000	2,820
	217,145	202,820

7d. Cyhoeddwy'r Saesneg – Grantiau i lyfrau

	2023	2022
	£	£
Seren	95,000	71,250
Parthian	37,575	50,100
Firefly	28,410	37,615
Honno	26,991	35,988
Y Lolfa	20,283	26,433
Gwasg Carreg Gwalch	23,900	11,920
Gwasg Prifysgol Cymru	27,340	7,200
New Welsh Review	2,200	3,000
Broken Sleep	–	2,100
Aderyn Press	–	1,500
The Ghastling	–	1,500
404 Ink	3,000	–
I-Pigeon	2,225	–
	266,924	248,606

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

7dd. Cyhoeddwy'r Saesneg – Cylchgronau a gefnogwyd

	2023	2022
	£	£
New Welsh Review	33,750	45,000
Planet	45,000	33,750
Wales Arts Review	20,625	27,500
Poetry Wales	15,000	20,000
Nation.Cymru	15,000	20,000
The Welsh Agenda & Click on Wales	13,125	17,500
Grantiau cylchgronau bach	5,400	9,250
Costau eraill i werthuso cylchgronau	–	2,918
	147,900	175,918

7e. Cyhoeddwy'r Saesneg – Cynllun Penodiadau

	2023	2022
	£	£
Parthian	23,000	17,250
Honno	21,500	16,125
Y Lolfa	15,000	11,250
Gwasg Prifysgol Cymru	15,000	11,250
Firefly	15,000	11,250
Seren	7,700	5,775
Graffeg	7,800	5,850
Gwasg Carreg Gwalch	3,500	2,625
	108,500	81,375

8. Gwariant Adrannau

	2023	2022
	£	£
Costau		
Golygu	117,356	116,066
Dylunio	109,989	110,420
Cyfathrebu a Marchnata	230,001	93,746
Gwerthu	259,210	252,940
Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmer	238,714	245,502
Llyfrau Plant	77,145	104,125
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	167,641	160,000
Cynllun Darllen yn Well	155,420	136,286
Gwariant Adnewyddu a Chyfalaf a dibrisiant	48,414	59,548
Costau cefnogi	316,350	334,284
Costau anarferol		
Darpariaeth ar gyfer tâl gwyliau	(12,221)	(8,184)
Tâl diswyddo a chostau ad-drefnu	–	2,700
Symudiad yn Rhwymedigaeth y Cynllun Pensiwn	278,000	211,000
	1,986,019	1,818,434

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

9. Incwm a Gwariant y Ganolfan Ddosbarthu

	2023	2022
	£	£
Incwm	4,373,598	3,240,447
Costau		
Llyfrau a brynwyd	3,519,431	2,612,672
Cyflogau, yswiriant, pensiwn	352,107	338,480
Costau rhedeg cerbydau	5,641	10,101
Teithio a chynhaliaeth	397	362
Cludiant, post, deunydd pacio	170,212	132,973
Prynu, a chynnal a chadw offer	43,164	30,839
Rhent, trethi, gwres, golau, ffôn	12,432	13,444
Yswiriant, cynnal a chadw adeiladau	16,283	14,883
Argraffu, papur	4,596	2,405
Disgownt a ganiateir	28,222	25,521
Mân wariant	16,320	15,884
Drwgddyledion	564	17,297
Dibrisiant	6,590	6,590
Cyfanswm Gwariant	4,175,959	3,221,977
 Elw /(Diffyg) am y flwyddyn	 197,639	 18,470

10. Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd

	Costau Staff	Costau Eraill	Grantiau	Cyfanswm 2023	Cyfanswm 2022
	£	£	£	£	£
Costau elusenol uniongyrchol	1,732,276	5,889,102	2,394,710	10,016,088	12,349,929

11. Staff

	2023	2022
	£	£
Cyflogau	1,275,679	1,085,337
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr	127,566	100,339
Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	249,031	218,072
Diffyg o'r gorffennol yn y Pensiwn	80,000	100,000
Cyfanswm cyflogau	1,732,276	1,503,748
 Cyfartaledd nifer y staff a gyflogid yn ystod y flwyddyn (Swyddi llawn-amser)	 39	 36

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth 1 aelod o'r staff (2022 – 1) ennill, gan gynnwys yswiriant cenedlaethol, rhwng £70,000 a £80,000.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

Costau staff allweddol

Ynghyd â'r Prif Weithredwr, mae 6 phennaeth adran (2022 – 6) sy'n ffurfio'r Uwch Dîm Rheoli, a gwnaethpwyd y taliadau isod iddynt yn ystod y flwyddyn:

	2023	2022
	£	£
Cyflogau	250,229	261,204
Treuliau Nawdd Cymdeithasol	29,952	28,363
Costau Pensiwn	49,451	51,457
	329,632	341,024

12. Tâl i'r ymddiriedolwyr

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn unrhyw dâl gan eu bod yn cael eu penodi gan awdurdodau neu gyrff allanol, ac nid oes ganddynt hawl i dderbyn tâl. Y swm am ddigolledu treuliau (teithio i gyfarfodydd ayyb) yr ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn oedd £1,146 (2022: £Dim). Y swm am ddigolledu costau teithio aelodau is-bwyllgorau'r Bwrdd oedd £2,053.

13. Asedau Sefydlog

	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol £	Cyfrifiaduron ac offer eraill £	Celfi a mân offer £	Cerbydau modur £	Cyfanswm £
Gwerth					
Ar 1 Ebrill 2022	253,008	526,566	55,851	68,736	904,161
Ychwanegiadau	–	389,530	–	–	389,530
Costau gwaredu	–	(225,987)	–	–	(225,987)
ar 31 Mawrth 2023	253,008	690,109	55,851	68,736	1,067,704
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2022	–	234,141	26,723	13,747	274,611
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	–	8,154	9,006	13,747	30,907
Costau gwaredu	–	(225,987)	–	–	(225,987)
ar 31 Mawrth 2023	–	16,308	35,729	27,494	79,531
Gwerth net					
Ar 31 Mawrth 2023	253,008	673,801	20,122	41,242	988,173
Ar 31 Mawrth 2022	253,008	292,425	29,128	54,989	629,550

Defnyddir yr holl asedau i bwrpas elusennol.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

14. Buddsoddiadau

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yr oedd gwerth y buddsoddiadau hyn ar y farchnad yn £185,374 (2022 – £193,524).

Mae'r buddsoddiadau'n cael eu dal gan gwmni Blackrock yng nghronfeydd Charinco a Charinshare sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain.

Cydnabyddir y buddsoddiadau yn ôl eu gwerth masnachol ar ddyddiad y fantolen. Mae'r buddsoddiadau wedi cael eu hailbriso, a chydabyddir unrhyw enillion neu golledion yn y Dadansoddiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

15. Dyledwyr

	2023	2022
	£	£
Dyledwyr masnachol	180,776	194,447
Dyledwyr eraill	307,405	5,499,690
Blaendaliadau	11,708	10,758
	499,889	5,704,895

Mae pob swm a nodir yn ddyledus mewn llai na blwyddyn.

16. Arian yn y banc ac mewn llaw

	2023	2022
	£	£
Tocynnau Llyfrau	890,103	281,462
Eraill	3,655,657	934,335
	4,545,760	1,215,797

17. Credydwyr: Symiau'n dod yn ddyledus yn ystod y flwyddyn

	2023	2022
	£	£
Credydwyr masnachol	1,631,555	3,093,662
Tocynnau Llyfrau	743,672	1,409,177
Credydwyr eraill	126,042	153,774
	2,501,269	4,656,613

Nid oes unrhyw gredydwyr am fwy nag un flwyddyn, ac eithrio tocynnau llyfrau lle na ellir bod yn sicr pryd y byddant yn daladwy.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

18. Cronfeydd Anghyfyngedig

	Balans 1 Ebrill 2022 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Trosglwyddiad a phensiwn £	Balans 31 Mawrth 2023 £
Cronfeydd Cyfalaf	500,000	–	–	–	500,000
Cronfeydd Incwm					
Cronfa Bensiwn	(2,583,000)	–	(278,000)	2,861,000	–
Cyngor	132,464	1,326,411	(1,329,387)	21,430	150,918
Canolfan Ddosbarthu	253,144	4,373,598	(4,169,369)	–	457,373
	<u>(1,697,392)</u>	<u>5,700,009</u>	<u>(5,776,756)</u>	<u>2,882,430</u>	<u>1,108,291</u>

19. Cronfa Benodol

	Balans 1 Ebrill 2022 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Trosglwyddo £	Balans 31 Mawrth 2023 £
Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Cymru	746,043	557,000	(62,161)	–	1,240,882
Cronfa datblygiadau cyfrifiadurol	230,694	–	–	–	230,694
	<u>976,737</u>	<u>557,000</u>	<u>(62,161)</u>	<u>–</u>	<u>1,471,576</u>

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

20. Cronfeydd Cyfyngedig

		Balans 1 Ebrill 2022 £	Derbyniwyd £	Talwyd £	Balans 31 Mawrth 2023 £
Cronfa Dr Dewi Davies	i	63,539	1,671	(3,251)	61,959
Cronfa Hybu Awduron	ii	47,631	—	(206)	47,425
Tlws Mary Vaughan Jones	iii	4,849	—	—	4,849
Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion	iv	82,354	3,276	(9,640)	75,990
Grantiau i'w dosbarthu					
Grantiau Cyhoeddi	v	—	2,600,722	(2,600,722)	—
Grant Ychwanegol i Gylchgronau	vi	—	135,000	—	135,000
Ffair Lyfrau Llundain	vii	—	80,000	(48,904)	31,096
Grant Argyfwng	viii	—	500,000	(396,482)	103,518
Grant Cynulleidfaoedd Newydd	ix	608,850	400,000	(608,850)	400,000
Cynlluniau Hyrwyddo Darllen	x	—	167,641	(167,641)	—
Adran y Gymraeg mewn Addysg	xi	29,759	—	(550)	29,209
Caru Darllen	xii	570,837	—	(141,642)	429,195
Prosiect Perthyn	xiii	—	17,281	(17,909)	(628)
Gŵyl Lenyddol Cheltenham	xiv	1,240	1,500	(1,503)	1,237
Prosiect Pêl-droed Cwpan y Byd The Reading Agency – Darllen yn Well	xv xvi	— 13,521	54,031 144,921	(54,031) (100,826)	— 57,616
Is-adran Diwylliant – Darllen yn Well	xvii	8,679	49,893	(54,594)	3,978
		1,431,259	4,155,936	(4,206,751)	1,380,444

i. Cronfa Dr Dewi Davies

Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu gwobrau ar gyfer cystadlaethau hybu darllen ymhlith plant a phobl ifanc.

ii. Cronfa Hybu Awduron

Cronfa gyffredinol i hybu ysgrifennu creadigol yn y Gymraeg.

iii. Tlws Mary Vaughan Jones

Mae'r gronfa'n cael ei defnyddio bob tair blynedd ar gyfer gwobrwyo un a wnaeth gyfraniad nodedig i faes llyfrau plant dros nifer o flynyddoedd.

iv. Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion

Mae'r llog ar y gronfa i'w ddefnyddio i ariannu Gwobrau Tir na n-Og a gweithgareddau ym maes llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc.

v. Grant Cyhoeddi Llywodraeth Cymru

Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i bwrsasau penodol a nodwyd yn y Cynllun Gweithredol a'r Llythyr Dyfarnu. Mae'r is-bwyllgorau datblygu cyhoeddi yn derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â'r cyllid yma, a hwy sydd yn rhoi sêl bendith ar unrhyw wariant o'r gronfa hon.

vi. Grant Ychwanegol i Gylchgronau

I helpu gyda chostau cynyddol ac i dreialu cylchgrawn newydd ym meysydd Hanes Cymru a Chwaraeon, dyfarnodd Cymru Greadigol £135,000 yn ychwanegol am flwyddyn i gyllideb y cylchgronau Cymraeg i'w ddosbarthu yn 2023/24.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

vii. Ffair Lyfrau Llundain

Dyfarnodd Cymru Greadigol £80,000 i Cyhoeddi Cymru Publishing Wales i gynnal stondin yn Ffair Lyfrau Llundain ym mis Ebrill 2023. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid a chadarnhawyd cais i drosglwyddo arian sy'n weddill i'w ddefnyddio tuag at Ffair Lyfrau Llundain 2024.

viii. Grant Argyfwng

Gwnaethpwyd cais i Cymru Greadigol am gyllid i gefnogi'r sector llyfrau, a derbyniwyd £500,000 ym mis Chwefror 2023. Bydd gweddill yr arian yn cael ei ddefnyddio yn ystod 2023/24. Dyma restr o'r rhai sydd wedi derbyn arian grant:

Enwau'r buddiolwyr	Gwerth (£)
Barn	15,000
Honno	15,000
Golwg cyf	15,000
Lolfa	15,000
Crown House	15,000
Gwasg Carreg Gwalch	15,000
Rily	15,000
Graffeg	15,000
Candy Jar	15,000
Firefly	15,000
Atebol	15,000
Seren	15,000
Planet	14,991
Parthian	14,950
Cymro	14,120
Lucent Dreaming	12,000
New Welsh Review	10,920
Henson Editorial	10,000
Gwasg y Bwthyn	9,000
Nation.cymru	7,200
Cyhoeddiadau'r Gair	7,000
Gwasg y Dref Wen	5,799
Merched y Wawr	5,000
O'r Pedwar Gwynt	5,000
Cylchgrawn Cara	1,600
Green Wellies	970
Cyhoeddiadau Curiad	750
Ashley Drake Publications	700

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

ix. Grant Cynulleidfaoedd Newydd

Dyfarnwyd £610,000 gan Gymru Greadigol tuag at raglen i gryfhau a chynnwys amrywiaeth yn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Dyma restr o'r rhai sydd wedi derbyn arian grant:

Enwau'r buddiolwyr	Gwerth (£)
Firefly	65,500
Lucent Dreaming	51,000
Atebol	47,700
Nation	42,000
Lumin Press	40,000
BAME Swansea	39,000
Sefydliad Materion Cymreig/Institute of Welsh Affairs	29,000
Y Lolfa	25,500
Gwasg y Bwthyn	20,000
Gwasg Carreg Gwalch	17,540
Inclusive Journalism	15,000
Broken Sleep	15,000
Taz Rahman	15,000
Hanin Abou Salem	15,000
Pontio	14,500
Cyhoeddi Cymru Publishing Wales	12,500
Golwg	12,000
Aderyn	12,000
Graffeg	10,000
Y Cymro	10,000
Modron	10,000
Seren	7,000
Honno	6,000
Atebol/Graffeg (prosiect ar y cyd)	5,000
Xcellence	5,000
Poetry Wales	3,500
Barn	2,700
Mymuna Soleman	2,500
WCW	2,000
Lysh	1,500
Lingo Newydd	1,200
Y Wawr	900
Cara	900
Barddas	900
Cip	675
Y Selar	600
Marchnata a chyfathrebu	14,794
Prosiect marchnata papurau bro	23,646
Gwerthuso prosiect	6,000
Gweinyddiaeth	6,945
CYFANSWM	610,000

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

- x. **Cynlluniau Hyrwyddo Darllen**
Derbynnir grant blynyddol sydd yn gyfyngedig i gynlluniau hyrwyddo darllen (Stori Sydyn/ Quick Reads, Diwrnod y Llyfr a Sialens Ddarllen yr Haf). Mae £140,000 o'r cyllid yn cael ei ddyfarnu gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru, £24,964 wedi'i ddyfarnu gan yr Is-adran Diwylliant, a'r gweddill yn dod fel cyfraniad allanol i'r prosiect gan Waterstones. Nid oedd unrhyw gyllid wedi'i gario drosodd.
- xi. **Adran y Gymraeg mewn Addysg**
Mae'r arian sy'n weddill o'r rhaglen Iechyd Da yn cael eu defnyddio i ariannu'r Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen.
- xii. **Caru Darllen**
Nod yr Adran Addysg yw rhoi llyfr yn anrheg i bob disgybl. Mae sawl haen i'r prosiect hwn, gan gynnwys rhoi llyfrau i fanciau bwyd, llyfrau unigol i ddisgyblion, tocynnau llyfrau i ddisgyblion (i ddewis eu llyfr eu hunain) a bocs o lyfrau i ysgolion. Er bod yr holl lyfrau hyn wedi eu harchebu cyn diwedd y flwyddyn ariannol, o ystyried maint y prosiect mae'n debygol o gymryd 12 mis i'w gwblhau.
- xiii. **Perthyn**
Prosiect tair blynedd yw hwn i ddatblygu llyfrau i blant yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan yr Adran Addysg ac Adran y Gymraeg mewn Addysg gyda'r nod o gynhyrchu llyfrau sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.
- xiv. **Gwyliau Cheltenham**
Darparodd yr Ŵyl Lenyddol £1,500 tuag at y rhaglen 'Reading Teachers = Reading Pupils' er mwyn ei gyflwyno yng Nghymru.
- xv. **Prosiect Pêl-droed Cwpan y Byd**
Ym mis Medi, dyfarnwyd grant i'r Cyngor Llyfrau fel rhan o Gronfa Cefnogi Partneriaid Cwpan y Byd i ddarparu llyfrau, bagiau a baneri i lyfrgelloedd a banciau bwyd er mwyn hyrwyddo pêl-droed. Y nod oedd dathlu cyflawniad Cymru wrth gyrraedd Cwpan y Byd, tanio cariad at ddarllen ymhlith pobl ifanc, a'u helpu i wella eu sgiliau llythrennedd.
- xvi. **The Reading Agency – Darllen yn Well**
Dyma ddiwedd trydedd flwyddyn y rhaglen Darllen yn Well yn ogystal â dechrau'r bedwaredd flwyddyn ar gyfer y rhai yn eu harddegau. Darperir yr arian gan The Reading Agency, sy'n elusen gofrestredig Brydeinig ond sydd yn derbyn yr arian i'r prosiect yma gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi ei neilltuo ar gyfer cyfieithu a chyhoeddi llyfrau yn ymwneud ag iechyd meddwl plant, a bydd y cyfrolau ar gael mewn llyfrgelloedd ac i'w prynu. Er i drydedd ran y cynllun (iechyd meddwl plant) ddod i ben yn Awst 2022, mae rhywfaint o weithgaredd wedi digwydd ers hynny, a bydd unrhyw arian a fydd ar ôl yn cael ei drosglwyddo i'r pedwerydd cylch (iechyd meddwl yn yr arddegau) a ddechreuodd ym mis Hydref 2022 ac a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Medi 2023.
- xvii. **Is-adran Diwylliant – Darllen yn Well**
Derbyniwyd grant tuag at gost llyfrau'r cynllun Darllen yn Well ac i ddosbarthu llyfrau ac e-lyfrau i lyfrgelloedd lleol, yn ogystal â chyllid i droi rhai o lyfrau'r cynllun yn llyfrau llafar.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

21. Dadansoddiad o'r Asedau Net rhwng y Cronfeydd

	Eiddo Parhaol/ Buddsoddiadau £	Asedau Cyfredol Net £	Credydwy'r Hir Dymor £	Cyfanswm £
Cronfeydd Cyfyngedig				
Cronfa Dr Dewi Davies	61,959	—	—	61,959
Cronfa Hybu Awduron	47,425	—	—	47,425
Tlws Mary Vaughan Jones	—	4,849	—	4,849
Cronfa Cymdeithas Lyfrau Ceredigion	75,990	—	—	75,990
Grant Argyfwng	—	103,518	—	103,518
Grant Ychwanegol i Gylchgronau	—	135,000	—	135,000
Ffair Lyfrau Llundain	—	31,096	—	31,096
Adran y Gymraeg mewn Addysg Perthyn	—	29,209 (628)	—	29,209 (628)
Cynllun Caru Darllen	—	429,195	—	429,195
Grant Cynulleidfaoedd Newydd	—	400,000	—	400,000
Gŵyl Lenyddol Cheltenham	—	1,237	—	1,237
The Reading Agency – Darllen yn Well	—	57,616	—	57,616
Is-adran Diwylliant – Cynllun Darllen yn Well	—	3,978	—	3,978
Cronfeydd Cyfyngedig	185,374	1,195,070	—	1,380,444
Cronfa Benodol	735,165	736,411	—	1,471,576
Cronfeydd Anghyfyngedig	253,008	855,283	—	1,108,291
	1,173,547	2,786,764	—	3,960,311

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

22. Cynllun Pensiwn

Mae'r elusen yn aelod o Gynllun Pensiwn Dyfed, sy'n gynllun budd-dal diffiniedig. Ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2022 roedd cyfraniadau'r cyflogwr yn 19.7% o'r tâl pensiynadwy.

Dyddiad y Prisiad Actiwaraid llawn diwethaf: 31 Mawrth 2022

TYBIAETHAU ACTIWARAIDD

Tybiaethau Ariannol	Dechrau'r Flwyddyn	Diwedd y Flwyddyn
Graddfa chwyddiant	3.30%	2.7%
Graddfa cynnydd cyflogau	4.80%	4.2%
Graddfa cynnydd pensiynau	3.40%	2.8%
Cyfradd disgownt	2.80%	4.8%

Mae ffigurau diwedd y flwyddyn ar gyfer dangos gwerth yr asedau ar y farchnad a rhaniad yr asedau rhwng categorïau buddsoddiadau wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2023. Mae'r ffigurau cyfatebol ar gyfer dechrau'r flwyddyn wedi eu cyfrifo ar 31 Mawrth 2022.

Datganiad o Sefyllfa Ariannol yr Eitemau ar 31 Mawrth 2023

	£'000
Gwerth yr Asedau ar y Farchnad	14,324
Dyledion	(11,840)
Gweddill (Diffyg)	<u>2,484</u>

Newid yn y rhwymedigaeth buddion yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023

Rhwymedigaeth buddion ar ddechrau'r flwyddyn	(2,583)
Cost Cyfredol y Gwasanaeth	(533)
Cyfraniadau'r Cyflogwr	327
Llog Net	(67)
Costau gweinyddu	(5)
Cynnydd Actiwaraid neu (Ddiffyg)	5,345
Rhwymedigaeth buddion ar ddiwedd y flwyddyn	<u>2,484</u>

* Yn 2023 cafodd yr ased ei gyfyngu i gydymffurfio â FRS 102 paragraff 28. Bydd endid yn cydnabod gwarged cynllun fel ased cynllun buddion diffiniedig dim ond i'r graddau ei fod yn gallu adennill y gwarged naill ai drwy lai o gyfraniadau yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun. Ni ystyriwyd bod y maen prawf hwn yn cael ei fodloni, felly ni chydabuwyd ased.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

Datgeliadau Ychwanegol Asedau Pensiwn

	Asedau ar 31.03.23		Asedau ar 31.03.22	
	£000	%	£000	%
Soddyfrannau	10,657	74	10,810	72
Bondiau Llywodraeth	72	1	194	1
Bondiau Eraill	1,017	7	1,181	8
Eiddo	1,934	13	1,959	13
Arian	644	5	807	6
Cyfanswm	<u>14,324</u>		<u>14,951</u>	
Dyledion ar 31.03.23	<u>11,840</u>		<u>17,534</u>	

23. Symudiad net yn y cronfeydd

	2023 £	2022 £
Cronfeydd Anghyfyngedig		
Cronfeydd Incwm		
Canolfan Ddosbarthu	204,229	18,470
Cyngor	18,454	34,358
Cronfa Bensiwn	2,583,000	894,000
Cronfa Benodol	494,839	113,863
Cronfeydd Cyfyngedig	(50,815)	1,126,819
	<u>3,249,707</u>	<u>2,187,510</u>

24. Cysoniad o incwm (gwariant) net i'r llif arian o weithgareddau gweithredu net

	2023 £	2022 £
Incwm net am y flwyddyn	3,249,707	2,187,510
Addasiadau:		
Gwariant cyfalaf	(389,530)	(244,935)
Dibrisiant	30,907	30,907
Gostyngiad/(Cynnydd) yng ngwerth y Buddsoddiadau	8,150	(5,518)
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y cynllun buddion wedi'u diffinio	(2,583,000)	(894,000)
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y stoc	(35,933)	55,337
Gostyngiad/(Cynnydd) yn y dyledwyr	5,205,006	(5,431,866)
(Gostyngiad)/Cynnydd yn y credydwyr	(2,155,344)	3,940,966
Arian net a ddarparwyd o weithgareddau gweithredu	<u>3,329,963</u>	<u>(361,599)</u>

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
NODIADAU I'R CYFRIFON (PARHAD)

25. Ymrwymïadau Cyfalaf

	2023	2022
	£	£
Wedi'u hymrwymo ond heb ddarpariaeth amdanynt yn y datganiadau ariannol	–	258,911
Gwariant cyfalaf ar y system newydd		

26. Grwpiau Cysylltiedig

Yn Nodyn 20, mae BAME Abertawe yn fuddiolwyr grantiau gwerth £39,000 fel rhan o'r cynllun Cynulleidfaoedd Newydd y mae Trysorydd y Cyngor Llyfrau, Alfred Oyekoya, yn ymddiriedolwr iddo.

Mae'r Athro Jane Aaron (Ymddiriedolwr yn y Cyngor Llyfrau) yn ymddiriedolwr Gwasg Honno, a dderbyniodd £71,070 mewn grantiau amrywiol (yn cynnwys £15,000 grant costau argyfwng (untro) a £6,000 o'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd).

Mae Lowri Ifor yn gweithio i Amgueddfa Cymru lle mae gan y Cyngor Llyfrau berthynas masnachu, ond nid yw'r trafodion yn cael eu rheoli gan Lowri mewn unrhyw fodd.

Mae gweithdrefnau llym ar waith i sicrhau, pan fo unigolyn yn gysylltiedig â pharti cysylltiedig tybiedig, nad yw'n cael ei gynnwys mewn unrhyw ran o'r broses benderfynu ar ddyfarnu grantiau i'r endidau hyn.